



Iechyd a Diogelwch

Canllaw i staff ac aelodau

Mae'r polisi yma'n nodi'r trefniadau y bydd CICau yn eu gwneud i sicrhau eu bod yn cwrdd â rhwymedigaethau iechyd a diogelwch i'w staff, aelodau ac ymwelwyr i'w heiddo.

Nodir ein dyletswyddau cyfreithiol yn y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, Rheoliadau Rhagofalon Tân (Gweithle) 1997, Rheoliadau Rheolaeth Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 ac unrhyw reoliadau a chodau ymarfer cymeradwy perthynol eraill. Gelir sefydlu dyletswyddau cyfreithiol hefyd drwy gyfraith gyffredin.

Dydy'r polisi yma ddim yn ffurfio rhan o gontract cyflogaeth unrhyw gyflogai a gallwn ei newid ar unrhyw adeg

Prif Swyddog y CIC sydd yn gyfrifol am iechyd a diogelwch. Dylid codi unrhyw bryderon yn berthynol i iechyd a diogelwch gyda'r Prif Swyddog neu'r Dirprwy Brif Swyddog.

Fe fydd CICau yn cymryd pob cam rhesymol i:

- diogelu iechyd, diogelwch a llesiant ein staff a'n haelodau ac unrhyw un sydd yn ymweld â'n swyddfeydd;
- darparu lle diogel i weithio, offer diogel a dulliau diogel o weithio;
- annog staff, aelodau ac eraill i adrodd am unrhyw beth y maen nhw'n deimlo sydd heb fod yn ddiogel;
- cynnal trefniadau diogel ar gyfer trafod gyda llaw lle mae hynny'n ofynnol;

- darparu'r wybodaeth a'r hyfforddiant angenrheidiol i helpu unigolion i gyflawni eu rolau yn ddiogel;

- cyflawni ein gweithgareddau mewn dull sydd yn lleihau risg o niwed i eraill;
- nodi unrhyw faes o'n gweithgareddau lle y gallai ein staff, aelodau neu eraill fod mewn perygl a sefydlu mesurau i ddileu neu i leihau hynny.

Dyletswydd statudol staff CIC a'r hyn a ddisgwyliwn oddi wrth aelodau.

Mae gan gyflogai ddyletswydd cyfreithiol i ofalu am eu iechyd a'u diogelwch eu hunain ac eraill allai gael eu heffeithio gan eu gweithrediadau yn y gwaith. Tra nad ydy aelodau CIC yn rhannu'r dyletswydd cyfreithiol yma, mae disgwyl i holl aelodau CIC fodd bynnag ddilyn yr un canllaw a:

- cymryd gofal rhesymol dros eu iechyd a'u diogelwch eu hunain, a phersonau eraill allai gael eu heffeithio gan yr hyn maen nhw'n ei wneud neu yn beidio ei wneud;
- defnyddio unrhyw offer a ddarperir gan CIC yn gywir, yn unol â hyfforddiant neu gyfarwyddiadau;
- peidio ag ymyrryd gyda, na chamddefnyddo unrhyw beth a ddarparwyd ar gyfer pwrpasau iechyd, diogelwch a llesiant;
- adrodd ar y cyfle cynharaf am anafiadau, damweiniau neu ddigwyddiadau peryglus, yn ogystal â'r rhai'n cynnwys y cyhoedd a chyfranogwyr mewn gweithgareddau a drefnir gan y CIC.

Dylid cofio bod cyfraith Iechyd a Diogelwch yn berthynol i gyflogwyr yn y gweithle a hefyd i unrhyw un sydd yn cael eu heffeithio gan weithgareddau gwaith ac i gyrff a phobl sydd yn meddiannu adeiladau cymunedol y mae gan aelodau'r cyhoedd fynediad iddyn nhw.

Ffurflenni a Llyfr Damweiniau

Cedwir llyfr damweiniau ym mhob swyddfa CIC. Fe'i cedwir mewn drôr dan glo pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

Dylid cofnodi unrhyw anaf i aelod, staff neu ymwelydd, waeth pa mor fychan.

Cymorth Cyntaf

Mae manylion am gyfleusterau cymorth cyntaf ac enwau'r rhai sydd wedi derbyn hyfforddiant i roi cymorth cyntaf i'w gweld ar hysbysfyrddau ym mhob swyddfa CIC.

Rhagofalon Tân

Rhaid i'r holl bersonel ymgysylltu gyda'r llwybrau dihangfa a gweithdrefnau tân a nodir ar hysbysfyrddau ym mhob swyddfa CIC. Dylai cyflogai ac aelodau adael yr adeilad ar unwaith drwy'r allanfa agosaf pan fo larwm tân i'w glywed a mynd i'r man ymgynnull tân agosaf. Yna fe ddylen nhw ddilyn y cyfarwyddiadau a nodir gan y CIC mewn perthynas â than ar eiddo CIC.

Asesiad Risg

Fe fydd y CIC yn cynnal asesiadau risg yn rheolaidd yn ein swyddfeydd ac ar gyfer yr holl weithgareddau yr ydym yn rhan ohonyn nhw. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau i leoliadau GIG a phresenoldeb mewn digwyddiadau ymgysylltu. Telir sylw arbennig i amgylchiadau gweithwyr dan 18 oed ac i famau beichiog, menywod sydd wedi rhoi genedigaeth o fewn y chwe mis diwethaf neu sydd yn bwydo o'r fron.

Cyn inni gyflawni maes gweithgaredd newydd efallai y gwahoddir aelodau i fynychu briff i aelodau. Mae trafod ein gweithgaredd arfaethedig yn rhoi cyfle i aelodau a staff godi unrhyw risgiau potensial yn benodol i'r maes hwnnw o waith a chytuno ar sut y gallwn eu dileu neu eu lleihau. Gall hyn gynnwys hyfforddiant ychwanegol lle mae hynny'n angenrheidiol.

Mae rhai gofynion yn berthynol i'r holl ymweliadau i ardaloedd clinigol fel:

- yr angen i gynnal hylendid dwylo i leihau lledaenu heintiau,
- holi'r nyrs mewn gofal oes yna unrhyw gleifion and ydy hi'n briodol siarad gyda nhw.

Mae rhai yn berthynol i bopeth a wnawn, fel:

- cadw o fewn golwg aelod arall bob amser

Fe fydd eraill yn berthynol i weithgareddau penodol ac yn cynnwys pethau fel:

- Cario offer yn ddiogel
- Gosod stondin neu gazebo

Mae cyfarfodydd tîm yn rhoi cyfle i staff gyfrannu at y broses o nodi risgiau yn eu hardal waith ac i drafod ffyrdd o leihau risg, er enghraifft mewn perthynas â:

- gweithio'n unigol
- diogelwch swyddfa
- ymweliadau cartref